



DATGANIAD NEWYDDION

24^{ain} Mai 2019

CORFF GWARCHOD IECHYD GOGLEDD CYMRU – GWERSI A DDYSGWYD O ADOLYGIAD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC), y corff gwarchod iechyd annibynnol i ogledd Cymru, wedi ymateb i adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Bwyllgor Sylwadau Cyhoeddus (PSC) Llywodraeth Cymru sy'n amlygu'r cynnydd araf a wnaed o ran gwelliannau i rai gwasanaethau iechyd yn y gogledd, er i'r bwrdd iechyd gael ei osod o dan fesurau arbennig ers 2015.

Dywedodd Geoff Ryall- Harvey, Prif Swyddog CICGC, 'Mae CICGC wedi chwarae rhan sylweddol yn yr adolygiad yma, gyda phrif bobl ein mudiad yn mynychu'r Senedd i roi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Yn ogystal, fe wnaethom gefnogi nifer o deuluoedd Tawel Fan i ddarparu eu tystiolaeth i'r Pwyllgor.'

'Rydym yn cytuno'n hollol gyda argymhellion adroddiad PSC. Mae'r galw am gymorth ychwanegol i'r bwrdd iechyd yn rhywbeth mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru wedi bod yn gofyn amdano ers rai blynyddoedd.'

'Ym mis Mawrth y llynedd fe wnaethom ysgrifennu at Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i nodi pryderon cynyddol CICGC nad oedd y Bwrdd Iechyd yn dal heb ddod allan o'r cyfnod Mesurau Arbennig. Yn y llythyr hwnnw dywedwyd, 'Mae cred ymysg aelodau CICGC fod Mesurau Arbennig erbyn hyn yn 'norm' i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac mae'n ymddangos fod effaith hyn wedi diflannu. Nid ni yw'r unig bobl sy'n credu hyn. Cadarnhaodd cysylltiad sylweddol ein haelodau gyda'r cyhoedd yn ystod ein sesiynau ymgysylltu cyhoeddus eang nad oes gan y cyhoedd hyder y bydd y bwrdd iechyd presennol yn gallu darparu'r gofal iechyd mae'r cyhoedd yn y gogledd yn ei ddisgwyl.'

Mae Cadeirydd newydd y bwrdd iechyd ac aelodau'r bwrdd yn wynebu'r her o ail-adeiladu hyder y cyhoedd sy'n rhan allweddol i ddod allan o'r Mesurau Arbennig. Bydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn parhau i weithio gyda hwy i gyflawni hyn drwy adlewyrchu barn a phrofiadau cleifion.'

Meddai John Stewart, aelod o grŵp teuluoedd Tawel Fan sy'n parhau i gael cymorth gan CICGC, 'Mae'r adroddiad yma'n hynod o feirniadol o'r Bwrdd Iechyd a chyfeiriwyd at lawer o'r hyn mae CICGC wedi ei ddweud yn yr adroddiad a'i dderbyn.'

'Mae teuluoedd Tawel Fan a fu'n cymryd rhan yn adolygiad PSC yn falch iddynt gael y cyfle i weld yr adroddiad cyn iddo gael ei ryddhau i'r cyhoedd'. Aeth Mr Stewart ymlaen i ddweud, 'daw'r teuluoedd sy'n gysylltiedig â'r diffygion ym maes mamolaeth yn ne Cymru i'r meddwl y bore yma – Gobeithwn fod y gwersi a ddysgwyd yn y adroddiad (yn cynnwys y wers o rannu adroddiad gyda'r rhai a effeithwyd cyn iddo gael ei ryddhau i'r cyhoedd) yn arbed gofid a phoendod emsiynol fel y profodd llawer ohonom ar y diwrnod y rhyddhawyd adroddiad HASCAS y llynedd. Rydym ond yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar yr argymhellion a wnaed.'

Aeth Geoff Ryall- Harvey rhagddo i ddweud. 'Ar amser o ansicrwydd i ddyfodol Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, mae sylwadau teuluoedd Tawel Fan am adolygiad mamolaeth de Cymru yn amserol ac yn arbennig o bwysig. Ni all y Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru adael i'r profiadau yma gael eu hail-adrodd.'

Nodiadau i'r golygydd

1 Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIC) yn gorff statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau'r cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng ngogledd Cymru. Daeth i fodolaeth ar y 1af Ebrill 2010 fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n cynnwys siroedd Conwy, Dinbych, Y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae poblogaeth gyfun y chwe sir oddeutu 675,500.

2 Mae gan y Cyngor Iechyd Cymuned chwe phwyllgor lleol, un i bob un o'r chwe sir. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys aelodau o dair ffynhonnell: cyngorwyr a enwebwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, pobl a enwebwyd gan fudiadau yn y sector gwirfoddol lleol a phobl leol a benodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch gyda: CIC Gogledd Cymru, rhif ffôn: 01248 679284 neu Epost: Carol.Williams@waleschc.org.uk

